# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 2**

DIGARTREFEDD

**PENNOD 2**

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Dyletswyddau i gynorthwyo ceiswyr*

## 64 Sut i sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod llety ar gael

(1) Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r modd y caiff awdurdod tai lleol sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad yw'n peidio â bod ar gael, i'r ceisydd ei feddiannu—

- (a) drwy drefnu i berson ac eithrio'r awdurdod ddarparu rhywbeth;
- (b) drwy ddarparu rhywbeth ei hun;
- (c) drwy ddarparu rhywbeth, neu drefnu i rywbeth gael ei ddarparu, i berson ac eithrio'r ceisydd.

(2) Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r hyn y caniateir ei ddarparu neu ei drefnu er mwyn sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad yw'n peidio â bod ar gael, i'r ceisydd ei feddiannu—

- (a) cyfryngu;
- (b) taliadau ar ffurf grant neu fenthyciad;
- (c) gwarantau y bydd taliadau yn cael eu gwneud;
- (d) cefnogaeth i reoli dyled, ôl-ddyledion morgais neu ôl-ddyledion rhent;
- (e) mesurau diogelwch i geiswyr sydd mewn perygl o wynebu camdriniaeth;
- (f) eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2019.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 64. (See end of Document for details)*

(g) llety;

(h) gwybodaeth a chyngor;

(i) gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau tai lleol mewn perthynas â sut y gallant hwy sicrhau neu helpu i sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad yw'n peidio â bod ar gael, i geisydd ei feddiannu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 64 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 64 mewn grym ar 1.12.2014 at ddibenion penodedig gan O.S. 2014/3127, ergl. 2(c), **Atod. Rhn. 3**

**I3** A. 64 mewn grym ar 27.4.2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2015/1272, ergl. 2, **Atod. para. 15**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2019.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 64.